


Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Ein hadroddiad diweddaraf am nyrsio a bydwreigiaeth yn y Deyrnas Unedig

Ebrill i Medi 2025



# Gwybodaeth am y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Y **Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth** ydyn ni. Yr **NMC** ydy'r enw byr amdanom ni.




Rydyn ni'n cadw rhestr o'r holl **nyrsys** a **bydwragedd** yn y Deyrnas Unedig, ac o **gymdeithion nyrsio** yn Lloegr. **Cofrestr** ydy'r enw ar y rhestr.



Mae **nyrsys** yn helpu pobl sy'n sâl, wedi'u hanafu neu sydd angen gofal.



Mae **bydwragedd** yn helpu pobl i roi genedigaeth.



Mae **cymdeithion nyrsio** yn staff iechyd sy'n gweithio gyda nyrsys yn Lloegr.

# Gwybodaeth am ein hadroddiad




Bob 6 mis, rydyn ni'n edrych ar yr wybodaeth sydd gennym ni am bawb ar y gofrestr.




Wedyn, rydyn ni'n ysgrifennu adroddiad am y pethau rydyn ni wedi eu dysgu.




Mae'r adroddiad yma yn edrych ar yr wybodaeth rhwng mis Ebrill a mis Medi 2025.

# Nifer y bobl ar y gofrestr




Gyda'i gilydd, mae ychydig o dan 8 gant a 61 mil o bobl ar y gofrestr.




Fe wnaethon ni edrych ar y gofrestr o fis Ebrill i fis Medi 2024 ac o fis Ebrill i fis Medi 2025:




- Eleni, roedd nifer y bobl ar ein cofrestr wedi codi 7 mil a 94.




- Y llynedd, roedd y nifer wedi codi bron i 15 mil.




Mae hyn yn golygu bod nifer y bobl ar y gofrestr yn codi'n arafach.

## Pam mae nifer y bobl ar y gofrestr yn codi'n arafach




Mae llawer o bobl ar y gofrestr wedi cael eu hyfforddi ar gyfer eu swydd yn y Deyrnas Unedig, sef yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.



Ac mae rhai pobl wedi cael eu hyfforddi mewn gwlad arall.




Fe wnaethon ni edrych ar y gofrestr o fis Ebrill i fis Medi 2024 ac o fis Ebrill i fis Medi 2025:




- Eleni, ychydig dros 6 mil o bobl a oedd wedi cael eu hyfforddi mewn gwlad arall wnaeth ymuno â'r gofrestr.




- Y llynedd, roedd dros 12 mil o bobl wedi ymuno.



Mae hyn yn golygu bod llai o bobl a oedd wedi hyfforddi mewn gwlad arall wedi ymuno â'r gofrestr.

# Pobl ar y gofrestr




Mae ychydig dros 7 cant a 93 mil, 5 cant o bobl yn nyrsys.




Mae ychydig o dan 47 mil, 5 cant o bobl yn fydwragedd.




Mae ychydig o dan 13 mil, 5 cant o bobl yn gymdeithion nyrsio.



Mae ychydig dros 6 mil o bobl yn nyrs ac yn fydwraig.

# O ble mae'r bobl ar y gofrestr yn dod




Erbyn hyn, mae ychydig o dan 6 chant a 51 mil o bobl o'r Deyrnas Unedig ar y gofrestr.




Erbyn hyn, mae ychydig o dan 2 gant a 10 mil o bobl o wledydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig ar y gofrestr.

# Pobl yn ymuno â'r gofrestr




Rhwng mis Ebrill a mis Medi eleni, roedd dros 20 mil o bobl wedi ymuno â'n cofrestr am y tro cyntaf.




Rhwng mis Ebrill a mis Medi yn 2024, roedd dros 27 mil o bobl wedi ymuno am y tro cyntaf.




Mae hyn yn golygu bod nifer y bobl a ymunodd â'r gofrestr rhwng mis Ebrill a mis Medi wedi mynd i lawr eleni.

## Pobl yn gadael y gofrestr




Roedd ychydig dros 15 mil o bobl wedi gadael y gofrestr yn ystod y 6 mis diwethaf.

## Ethnigrwydd y bobl ar y gofrestr



Ystyr eich **ethnigrwydd** ydy eich hil, eich cefndir a’ch diwylliant.



Mae tua 1 o bob 3 o bobl ar y gofrestr yn dweud eu bod yn Ddu, Asiaidd neu o gefndiroedd ethnig eraill.



Dywedodd bron i 2 o bob 3 o bobl eu bod yn wyn.

## Faint o ddynion neu fenywod sydd ar y gofrestr



Mae ychydig dros 1 o bob 10 o bobl ar ein cofrestr yn ddynion.



Mae bron i 9 o bob 10 o bobl yn fenywod.

## Nyrsys anabledd dysgu




Yn ystod y 6 mis diwethaf, roedd nifer y nyrsys anabledd dysgu ar ein cofrestr 36 yn is.



Erbyn hyn, ychydig o dan 17 mil o nyrsys anabledd dysgu sydd ar ein cofrestr.

# Nyrsys iechyd meddwl



Ystyr eich **iechyd meddwl** ydy pethau fel eich meddyliau, eich teimladau a sut rydych chi'n ymdopi mewn bywyd bob dydd.




Yn ystod y 6 mis diwethaf, roedd nifer y nyrsys iechyd meddwl wedi codi ychydig dros 1 mil.




Erbyn hyn, mae dros 1 cant a 5 mil o nyrsys iechyd meddwl ar ein cofrestr.

# Gwybodaeth am yr adroddiad hawdd ei ddeall

Mae Easy Read UK wedi ein helpu i ysgrifennu'r adroddiad hawdd ei ddeall.

**www.easyreaduk.co.uk**



Mae'r lluniau yn yr adroddiad hwn wedi dod gan Photosymbols, Ing Image a'r NMC.

nmc
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

**Y rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr 1091434) ac yn yr Alban (SC038362).**

**23 Portland Place, Llundain W1B 1PZ**
**Ff 020 7637 7181**
**www.nmc.org.uk**